

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	24 Tachwedd, 2015
PWNC	Is-grwp Amrywiaeth
PWRPAS	Diweddaru Aelodau y Pwyllgor ar waith yr is-grwp amrywiaeth a chyflwyno y rhaglen waith.
AWDUR	Cynghorydd Tom Ellis Cadeirydd Is-grwp Amrywiaeth

CEFNDIR

- 1.1 Sefydlwyd yr Is-grŵp amrywiaeth ym mis Chwefror 2015 mewn ymateb i adroddiad cenedlaethol ac arweiniad yn Neddff Llywodraeth Leol (2012) i geisio cynyddu amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol.
- 1.2 Bwriad yr is-grŵp oedd edrych ar sefyllfa Gwynedd yn gyfredol gan gymharu proffil aelodau etholedig y Cyngor gyda phroffil y Sir i weld a oeddent yn gymharol. Bu'r grŵp yn edrych ar ystadegau am oedran, rhyw, cefndir ethnig ac anabledd.
- 1.3 Yn dilyn dadansoddi'r sefyllfa gyfredol, ymgymryd â rhywfaint o waith ymchwil i'r maes, lluniwyd rhaglen waith i geisio gwneud rhywfaint o wahaniaeth ar gyfer etholiadau 2017.

Y GWAITH HYD YMA

2.1 Mae'r is-grŵp wedi cwrdd ambell waith dros y misoedd diwethaf ac wedi dadansoddi'r data ystadegol sydd i law am y pedwar maes. Penderfynwyd fel a ganlyn:

Cefndir ethnig: anghysonder bychan rhwng proffil y Cyngor a'r Sir, ond ddim yn flaenoriaeth i gael sylw gan y grŵp. Angen ei ddwyn i mewn i gynlluniau lle bo'r cyfle, ond dim cynllun penodol.

Anabledau: Anodd dadansoddi gan fod data am y maes yn anodd i'w gael. Pencampwr Anabledau Gwynedd wedi nodi fod gwaith yn digwydd yn y maes yn gyfredol. Dim cynllun penodol gan y grŵp, ond fel uchod, angen ei ddwyn i mewn i gynlluniau lle bo'r cyfle, ond dim cynllun penodol.

Rhyw: Anghysondeb ym mhroffil y Cyngor a'r Sir – gweler graff yn **Atodiad A**. Cynllun gwaith wedi ei lunio (gweler isod)

Oedran: Anghysondeb ym mhroffil y Cyngor a'r Sir - eto gweler graff **Atodiad A**. Gwaith yn mynd rhagddo yn hyrwyddo dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth o waith y Cyngor ac aelodau etholedig trwy'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Y

grŵp yn awyddus i beidio dyblygu, felly penderfynwyd bwydo unrhyw syniadau gan y grŵp trwy'r Aelod Cabinet i'r Bartneriaeth eu gweithredu lle'n bosib.


- 2.2 Yn ogystal, bu i'r grŵp edrych ar rhywfaint o waith pellach ynghylch rhwystrau rhag sefyll i fod yn aelod etholedig, gwaith ymchwil cenedlaethol yn seiliedig ar wybodaeth gan gyn-aelodau ar draws Cymru i'r rhwystrau a'r cyfleon gwella, a'r rhaglen waith cenedlaethol sydd newydd ei lansio.
- 2.3 Defnyddiwyd y wybodaeth uchod i gyd wrth geisio mynd ati i lunio rhaglen waith ddrafft bosib ar gyfer y camau nesaf.

CAMAU NESAF

- 3.1 Cyflwynir y rhaglen waith ddrafft i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn **Atodiad B**. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y rhaglen waith ddrafft a'i gefnogi.
- 3.2 Fe welir o'r rhaglen ddrafft fod elfennau sydd yn gofyn am fewnbwn gan aelodau a'r pleidiau gwleidyddol. Os yw'r pwyllgor yn awyddus i gefnogi'r cynllun, yna byd yn ofynnol sicrhau mewnbwn gan yr holl aelodau.
- 3.3 Yn ogystal, fe welir o'r rhaglen waith ddrafft y nodir awgrymiadau lle gall partneriaid ein cynorthwyo i hyrwyddo amrywiaeth mewn democratiaeth trwy weithredu mewn gwahanol feysydd ee Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, y Clybiau Ieuenctid a'r Brifysgol ayyb Bydd angen cynnal trafodaethau gyda'r partneriaid hyn yn awr er mwyn sicrhau y ffordd ymlaen. .
- 3.4 Mae'r Is-grŵp yn gweld y rhaglen waith fel un byw y gellir ei addasu neu ychwanegu ato wrth i'r trafodaethau fynd yn eu blaenau, er enghraifft yn dilyn y gwaith arfaethedig efo grŵp ffocws am yr hyn sydd yn rwystr i bobl gynnig eu hunain ar gyfer sefyll etholiad.
- 3.5 Mae paratoi ar gyfer etholiadau nesaf y Cyngor, sydd ym Mai 2017, hefyd yn allweddol. Bydd angen i'r is-grŵp o'r Pwyllgor ystyried, maes o law, beth fydd y mecanwaith gorau ar gyfer cyflwyno unrhyw adolygiadau neu gynigion mewn da bryd i baratoi ar gyfer yr etholiadau hynny.
- 3.6 Ceisir barn y Pwyllgor ar y rhaglen waith ddrafft.

ATODIAD A

Mae'r graff isod yn darlunio gwybodaeth, fesul grwp oedran, am broffil poblogaeth Gwynedd a phroffil aelodau Gwynedd fesul rhyw. Cyflwynir er gwybodaeth i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.



Data yn gywir Chwefror 2015

Aelodaeth gyfredol y Grwp

Cynghorwyr	Rol
Tom Ellis	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Sian Gwenllian	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Sion Jones	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Peter Read	Pencampwr Anabledau
Gwen Griffith	Pencampwr Amrywiaeth
Mair Rowlands	Pencampwr Plant a Phobl Ifanc